Rhif: WG50743

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru)

Ystyried rheoliadau drafft i'w gwneud yn orfodol defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

Ebrill 2025

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-83715-626-9

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i'w gwneud yn orfodol defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru. Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd am rannu eu safbwyntiau â ni.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: asesiadeffaithiechyd@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Rheoliadau asesiadau o'r effaith ar iechyd | LLYW.CYMRU

# Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4
Yr ymgynghoriad ..... 5
Yr ymatebion ..... 6
Y math o sefydliad ..... 6
Crynodeb o'r ymatebion ..... 7
Cwestiwn 1 ..... 7
Cwestiwn 2 ..... 10
Cwestiwn 3 ..... 12
Cwestiwn 4 ..... 13
Cwestiwn 5 ..... 14
Cwestiwn 6 ..... 15
Cwestiwn 7 ..... 17
Cwestiwn 8 ..... 18
Cwestiwn 9 ..... 20
Cwestiwn 10 ..... 22
Cwestiwn 11 ..... 23
Cwestiwn 12 ..... 25
Cwestiwn 13 ..... 26
Cwestiwn 14 ..... 27
Cwestiwn 15 ..... 29
Cwestiwn 16 ..... 31
Cwestiwn 17 ..... 32
Cwestiwn 18 ..... 33
Cwestiwn 19 ..... 34
Atodiad 1 – Crynodeb o'r ymatebwyr ..... 36

## Cyflwyniad

Er mwyn ymdrin â phenderfynyddion ehangach iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers amser i gynnwys iechyd ym mhob un o'i pholisïau. Er mwyn ategu'r dull gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi annog ymdrechion i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau).

Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal AEIau o dan amgylchiadau penodedig.

Diffinnir AEI fel a ganlyn yn y Ddeddf:

> *"....asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru."*

Mae'r rhestr arfaethedig o'r cyrff cyhoeddus a fydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) ("y Rheoliadau") yn adlewyrchu'r rhestr ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sef cyfanswm o 56 o sefydliadau sy'n cynnwys yr wyth corff ychwanegol a ychwanegwyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar 30 Mehefin 2024. Bydd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ystyried eu Hasesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Bwriedir i'r Rheoliadau helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu nodau llesiant, yn arbennig 'Cymru Iachach' a 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal'.

Cynigir y bydd y Rheoliadau yn berthnasol i'r cyrff cyhoeddus a ganlyn:

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) awdurdod lleol;

(ba) cyd-bwyllgor corfforedig;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol;

(d) Ymddiriedolaethau canlynol y GIG-

- (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- (ii) Felindre;
- (iii) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;

(da) yr awdurdodau iechyd arbennig canlynol a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006-

- (i) Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- (ii) Addysg a Gwella Iechyd Cymru;

(e) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) awdurdod tân ac achub yng Nghymru;

(g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(h) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

(i) Cyngor Celfyddydau Cymru;

(j) Cyngor Chwaraeon Cymru;

(k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;

(l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru;

(m) Gofal Cymdeithasol Cymru;

(n) Awdurdod Cyllid Cymru;

(o) Trafnidiaeth Cymru (rhif cwmni 09476013);

(p) y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (rhif cwmni 09341679);

(q) Cymwysterau Cymru.

**Yr ymgynghoriad**

Ar 29 Rhagfyr 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Rheoliadau. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 29 Mawrth 2024 a gofynnwyd 19 o gwestiynau. Nod y cwestiynau oedd casglu safbwyntiau ar y meysydd a ganlyn:

- Yr hyn yr ydym yn ei ystyried
- I bwy y mae'r Rheoliadau yn gymwys
- Pryd y bydd y Rheoliadau yn gymwys
- Sut y dylid cynnal AEI
- Cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y manteision a'r costau i gyrff cyhoeddus
- Yr effaith ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth a'r Gymraeg

Gallai rhanddeiliaid ymateb drwy ffurflen ar-lein neu lawrlwytho'r ffurflen a'i dychwelyd drwy e-bost neu drwy'r post. Derbyniwyd pob ymateb, gan gynnwys yr ymatebion hynny lle mai dim ond atebion rhannol a gafwyd i gwestiynau, a'r ymatebion hynny a gyflwynwyd mewn fformat gwahanol i'r ddogfen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall a fersiwn i bobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru

hefyd, ac roedd modd gwneud cais am fersiynau mewn print bras, mewn braille ac mewn ieithoedd eraill.


**Yr ymatebion**

Cafwyd un ymateb drwy'r fersiwn hawdd ei deall, a chyflwynwyd y gweddill gan ddefnyddio'r templed safonol neu fersiwn wedi'i haddasu, fel llythyr. Cafwyd 34 o ymatebion drwy e-bost a chafwyd 29 drwy'r ffurflen ar-lein. Cyflwynwyd tri ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg, roedd yr holl ymatebion eraill yn uniaith Saesneg. Roedd 54 o'r ymatebwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, cafwyd pump ymateb gan sefydliadau y tu allan i Gymru, a chafwyd pedwar gan unigolion anhysbys. Cwblhawyd 14 o'r ymatebion yn rhannol. Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 1.

Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd i'r ymgynghoriad, wedi'u trefnu fesul cwestiwn.

**Y math o sefydliad**

Mae'r siart isod yn dangos pa fath o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad:




## Crynodeb o'r ymatebion

Ceir crynodeb o'r atebion i bob cwestiwn isod. Mae'r siartiau yn dangos yr atebion i'r cwestiynau categorïaidd (cwestiynau a oedd yn gofyn i'r cyfranogwyr ymateb drwy ddewis categori e.e. cytuno, anghytuno, dim ateb). Rydym wedi crynhoi'r atebion i gwestiynau testun rhydd o dan themâu. Dylid nodi bod y cyfraddau ymateb yn wahanol ar gyfer pob cwestiwn.


## Cwestiwn 1

**Yn seiliedig ar y darpariaethau a geir yn Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i ba raddau rydych yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn ymdrin â'r rhwymedigaeth i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd?**




Roedd 35 o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn hwn (56%), nid oedd 8 yn cytuno nac yn anghytuno (13%), roedd 9 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (14%) ac nid atebodd 11 (17%)

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:




**Crynodeb o'r ymatebion testun**

Cyflwynodd 12 o'r ymatebwyr sylwadau ar fanteision cyflwyno AEIau gorfodol fel ffordd o sicrhau y caiff iechyd pobl yng Nghymru ei ystyried gan sefydliadau perthnasol ac y caiff effaith eu penderfyniadau ar iechyd ei hystyried ar raddfa ehangach.

Tynnodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr sylw at ddiffyg eglurder o ran ystyr cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol, ac felly pryd y dylid cynnal AEI:

> HIAEMAIL004: *"mae'r diffiniad yn y rheoliadau eu hunain sy'n nodi pryd y dylid cynnal AEI ('cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol') yn amwys a gellid ei ddehongli mewn sawl ffordd wahanol; er bod yr enghreifftiau yn helpu, mae cryn dipyn o ansicrwydd o hyd (e.e. a yw cynllun blynyddol Bwrdd Iechyd wedi'i gynnwys – a yw cynllun blynyddol yn gynllun 'tymor canolig i dymor hir'?). Mae risg hefyd y bydd rhai yn ceisio osgoi gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau drwy gyfeirio at rai strategaethau fel cynlluniau yn lle hynny."*
>
> R007: *"Mae angen canllawiau clir ac ymarferol arnom o ran pryd y bydd y rhwymedigaeth hon yn berthnasol – h.y. eglurder o ran ystyr penderfyniad o natur strategol."*

Codwyd y gydberthynas rhwng asesiadau o effeithiau eraill sawl gwaith, gyda rhai ymatebwyr yn nodi bod y rhwymedigaethau yn dod yn anghymesur, bod gofynion AEI eisoes wedi'u cynnwys fel rhan o ddyletswyddau sy'n bodoli eisoes, neu nad oedd y gydberthynas rhwng asesiadau o'r effaith yn glir. Roedd pedwar ymatebydd

o'r farn nad oedd effaith asesiadau effaith eraill gorfodol wedi cael ei dangos yn ddigon clir eto:

> R010: *"Er ei bod hi'n hawdd gweld bod angen ymdrin â thegwch ledled Cymru, a manteision gwneud hynny… Yn y sefyllfa bresennol, mae Asesiadau Effaith yn aml yn dod yn fwy o faint ac yn anghymesur o ystyried y mater dan sylw. Byddai ystyried cymesuredd a dulliau haws, mwy effeithlon o gwblhau asesiadau o fudd mawr ac yn debygol o arwain at well ansawdd."*

Roedd y pynciau eraill a godwyd yn cynnwys nodi'r canlyniadau pe na chaiff AEI ei gynnal neu os caiff ei gynnal yn wael, sicrhau gwell eglurder o ran y term "gweithredol arferol" ac ystyried defnyddio'r term penderfyniadau "cyffredin a wneir o ddydd i ddydd" er mwyn adlewyrchu iaith y canllawiau statudol ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Cyflwynodd pum ymatebydd sylwadau ar y posibilrwydd o gynnal adolygiad barnwrol pe na fyddai cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; yn benodol, codwyd pryderon y gallai diffyg capasiti a gallu i gynnal AEIau gynyddu'r tebygolrwydd y byddai angen adolygiad barnwrol. O ganlyniad, gofynnwyd am lawer mwy o fanylion yn y Rheoliadau er mwyn lleihau'r risg hon.


Roedd tri ymatebydd o'r farn bod diffyg eglurder o ran y broses a beth yn union sy'n ofynnol.

Cafwyd rhai sylwadau ar y ffocws ar iechyd; y dylid ystyried enw'r Rheoliadau er mwyn osgoi'r canfyddiad eu bod wedi'u hanelu at y sector iechyd, ac y dylent ganolbwyntio ar y model cymdeithasol o anabledd ac nid y model meddygol.

Nododd un ymatebydd fod angen tystiolaeth o'r effaith y byddai dull gweithredu integredig yn ei chael, ond roedd eraill o'r farn mai dull gweithredu pragmataidd ydoedd er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ac integreiddio AEIau i brosesau sy'n bodoli eisoes.


## Cwestiwn 2

**Bydd yn ofynnol i'r cyrff a restrir o dan adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 lunio AEIau yn unol â'r Rheoliadau drafft. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 adlewyrchu'r cyrff hynny a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol a gynigir yn y dyfodol a gaiff eu hychwanegu at adran 6?**




Roedd 48 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn (76%), roedd 6 yn anghytuno (10%) ac nid atebodd 9 (14%).

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:



**Crynodeb o'r ymatebion testun**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r rhestr o gyrff adlewyrchu'r rhai a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *R011: "Mae AEI yn cynnig dull cadarnhaol ac ymarferol a fydd yn cefnogi dyletswyddau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly mae'n briodol ei gymhwyso at yr un cyrff cyhoeddus."*
>
> *R016: "Fel sefydliad sydd wedi'i enwi i gael ei gynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydyn ni'n cytuno y dylai'r rheoliadau hyn gynnwys y cyrff newydd a restrir."*

Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn na ddylent fod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau gan eu bod eisoes yn ystyried yr effeithiau ar iechyd ddigon fel rhan o'r broses o bennu amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

I'r gwrthwyneb, nododd ymatebwyr hefyd amrywiaeth o sefydliadau ychwanegol a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau.


Awgrymwyd y sefydliadau ychwanegol canlynol:

- Cyd-bwyllgorau Corfforedig (6 ymatebydd) [Eglurhad: Fel y cynigiwyd, caiff Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu cynnwys]
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (3 ymatebydd)
- Bargeinion Dinesig a Rhanbarthol (2 ymatebydd)
- Sefydliadau eraill â chyfrifoldebau sylweddol dros gynllunio, seilwaith neu gaffael cyhoeddus (2 ymatebydd)
- Cyrff cyflawni sy'n cael arian cyhoeddus (1 ymatebydd)
- Datblygwyr tai (1 ymatebydd)
- Cymdeithasau tai (1 ymatebydd)
- Prifysgolion (1 ymatebydd)
- Cyrff arolygiaethol (1 ymatebydd)
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (1 ymatebydd)

Nododd un ymatebydd hefyd y dylid annog AEIau gwirfoddol o hyd lle nad ydynt yn orfodol.


## Cwestiwn 3

**Ydych chi'n cytuno â bwriad y polisi i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir ddefnyddio AEI pan fyddant yn cymryd cam neu'n gwneud penderfyniad o natur strategol?**




Roedd 41 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn (65%), nid oedd 2 yn cytuno nac yn anghytuno (3%), roedd 11 yn anghytuno (17%) ac nid atebodd 9 (14%) (cyfanswm o 99% oherwydd talgrynnu).

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:




Roedd y rhan fwyaf o'r adborth ar y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r diffiniad o 'benderfyniad o natur strategol' a chaiff ei drafod yn yr ymatebion i gwestiwn 1.

## Cwestiwn 4

**Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal AEI gorfodol?**

Nid oedd naw ymatebydd o'r farn y dylai fod unrhyw amgylchiadau ychwanegol ar gyfer cynnal AEI gorfodol.

O ran yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai fod amgylchiadau ychwanegol ar gyfer cynnal AEI, cafwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Lle bo unrhyw benderfyniad pwysig yn cael ei wneud (3 ymatebydd)

- Lle bo'r penderfyniad yn effeithio ar grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu neu wasanaethau sydd o bosibl yn tanberfformio, gan gynnwys:
    - Lle bo datblygiadau wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o amddifadedd (1 ymatebydd)
    - O fewn y system gyfiawnder (1 ymatebydd)
    - Meysydd gwasanaeth lle caiff hawliau cyfreithiol pobl eu diystyru e.e. y system iechyd meddwl (1 ymatebydd)
    - Modelau gwasanaeth tymor hir sy'n cefnogi pobl ag anghydraddoldebau iechyd (2 ymatebydd)
    - Meysydd gwasanaeth lle ceir lefelau uchel o gwynion (1 ymatebydd)

- Lle caiff gwaith adeiladu a/neu ad-drefnu ar raddfa fawr ei gynnig. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys y canlynol:
    - Cynigion adeiladu tai yn cynnwys mwy na 10 tŷ (1 ymatebydd)
    - Prosiectau masnachol o faint penodol (1 ymatebydd)
    - Seilwaith trafnidiaeth newydd (1 ymatebydd)
    - Cynigion i ad-drefnu ysgolion yn lleol neu'n rhanbarthol (1 ymatebydd)
    - Unrhyw brosiect a/neu raglen ar raddfa fawr (1 ymatebydd)
    - Gwaith adeiladu cyfalaf ac ad-drefnu gwasanaethau o fewn y GIG (1 ymatebydd)

- Wrth ymgysylltu â'r broses gaffael a thendro ar gyfer comisiynu nwyddau a gwasanaethau / cyllid a gaiff ei sianelu drwy gyrff cyhoeddus (2 ymatebydd)

Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill gan ymatebwyr:

- Dylid cwblhau AEIau bob blwyddyn ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol / polisi cynllunio (2 ymatebydd)
- Dylai cymunedau allu gwneud cais am AEI (1 ymatebydd);
- Dylai fod gofynion mwy cynhwysfawr ar gyfer AEI ar wahanol elfennau o Gynlluniau Datblygu Lleol (1 ymatebydd)
- Dylai fod yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau ddarparu ardaloedd bwydo ar y fron (1 ymatebydd)
- Dylid egluro cyfranogiad sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector (1 ymatebydd)

## Cwestiwn 5

**Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai cyrff cyhoeddus gael eu heithrio rhag cydymffurfio â'r Rheoliadau drafft?**

Nid oedd y rhan fwyaf (16) o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn y dylid bod unrhyw amgylchiadau ychwanegol ar gyfer eithriad.


O ran yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai fod amgylchiadau ychwanegol ar gyfer eithriad, cafwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Sefyllfaoedd argyfwng / brys (7 ymatebydd)
- Ystyried eithriadau fesul achos unigol er mwyn creu rhestr (2 ymatebydd)
- Os bydd Awdurdod Lleol yn cyhoeddi hysbysiad Adran 114 (1 ymatebydd)

Cyflwynodd eraill sylwadau ar y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen mewn perthynas â'r amgylchiadau lle mae'n ofynnol cynnal AEI. Galwodd nifer sylweddol (13) am fwy o eglurder o ran pryd y byddai'n ofynnol cynnal AEI e.e. y gwahaniaeth rhwng arferol/gweithredol a gweinyddol, a newidiadau i wasanaethau cyhoeddus a datblygiadau iddynt. Gofynnodd nifer bach am fwy o eglurder ar y rhwymedigaeth i gynnal AEI ar gyfer penderfyniadau a wneir yn allanol neu benderfyniadau wedi'u comisiynu, ac a oes angen ystyried yr effeithiau ar iechyd os gwneir penderfyniad i gau neu leihau gwasanaethau anstatudol yn seiliedig ar gyfyngiadau ariannol.


## Cwestiwn 6

**Ydych chi'n cytuno bod yr allbynnau sy'n ofynnol fel gofyniad sylfaenol ar gyfer AEI o dan reoliad 4 yn briodol? Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn.**




Roedd 38 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn (60%), roedd 14 yn anghytuno (22%) ac nid atebodd 11 (17%) (cyfanswm o 99% oherwydd talgrynnu).

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:




**Crynodeb o'r ymatebion testun**

Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon fod y rhwymedigaeth i ymgynghori yn rhy eang ac yn cynnig gormod o ddisgresiwn – gall cyrff cyhoeddus ddewis a dethol pwy i

ymgynghori â nhw (4 ymatebydd). Roedd eraill o'r farn y dylai'r allbynnau fod yn fwy hyblyg gan y bydd yn dibynnu ar natur y cynnig/penderfyniad (4 ymatebydd).

Nododd nifer bach o'r ymatebwyr er mwyn iddynt gytuno â'r allbynnau gofynnol, byddai angen eglurhad o ystyr penderfyniad strategol (2 ymatebydd).

## Cwestiwn 7

**Ydych chi'n cytuno y dylid ystyried y ffactorau a nodir yn rheoliadau 4(8) i 4(11) o'r Rheoliadau drafft wrth gynnal AEI? Er hwylustod, mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn;**
**(a) penderfynyddion ehangach iechyd, a**
**(b) y ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd.**
**Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn**

Er bod nifer mawr o'r ymatebwyr (21) yn cytuno y dylid ystyried y ffactorau yn Rheoliad 4, roedd eraill o'r farn eu bod yn amwys ac y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol.

Awgrymwyd y dylid cynnwys y ffactorau ychwanegol canlynol:

- Ystyried penderfynyddion masnachol iechyd (1 ymatebydd); ystyriaethau newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cynefinoedd a gwledigrwydd (2 ymatebydd)
- Cyfeirio at yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol er mwyn dangos y gydberthynas rhwng AEI, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (3 ymatebydd)
- Ehangu'r diffiniad o annhegwch iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd (1 ymatebydd)

Gofynnodd ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ar y broses AEIau, a chafwyd argymhellion penodol y dylid gwneud y canlynol:

- Amlinellu cyfrifoldebau partneriaeth ar y cyd y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau (5 ymatebydd)
- Gwneud y broses yn fwy penodol (2 ymatebydd)
- Nodi'r ymgyngoreion a'r drefn flaenoriaeth ar gyfer asesiadau (2 ymatebydd)
- Egluro a allai methu â chynnal AEI arwain at adolygiad barnwrol (1 ymatebydd)

## Cwestiwn 8

**Oes unrhyw broblemau posibl y gallwch eu rhagweld o ran sut y bydd angen cynnal AEI o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau drafft?**

Nodwyd pedwar maes amlwg a oedd yn cyfeirio at broblemau posibl o ran sut i gynnal AEI, gyda chysylltiadau rhwng pwynt un a phwynt dau:

1. Gofynnodd nifer mawr o'r ymatebwyr (16) am fwy o eglurder a chydlyniad o ran sut y gellir integreiddio AEI â dyletswyddau eraill, gan ofyn am ganllawiau cydlynus gan y cyrff perthnasol:

    > *HIAEMAIL023: "Byddai'n fuddiol ystyried fframwaith cenedlaethol o ran polisi a threfniadau asesu i'w cysoni mewn un man i gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff asesiadau effaith eu cynnal mewn ffordd effeithiol, ond hefyd mewn ffordd gyson, gan y byddai hyn yn cynnig darlun cenedlaethol."*

2. Soniodd sawl ymatebydd (14) am y potensial ar gyfer dyblygu dyletswyddau, adnoddau a gofynion sy'n bodoli eisoes o ran asesiadau effaith:

    > *R010: "Ymddengys fod cryn dipyn o orgyffwrdd a dyblygu rhwng gofynion cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gofynion yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae angen gwybodaeth gyffredinol o'r hyn sy'n ofynnol gan y ddau Asesiad Effaith er mwyn osgoi achosion diangen o ddyblygu."*

3. Nododd ymatebwyr hefyd bryder ynghylch diffyg capasiti a galluogrwydd i gynnal AEI (14):

    > *R009: "Nid yw cyrff cyhoeddus yn arbenigwyr ym maes iechyd nac iechyd y cyhoedd, ac nid yw'n realistig disgwyl i gyrff cyhoeddus feddu ar y capasiti i ddatblygu arbenigedd a chyflawni'r rôl hon mewn ffordd ystyrlon."*

4. Soniodd sawl ymatebydd (9) am fwy o eglurder ar y gofynion adrodd a monitro:

    > *R013: "Gan nad yw'r Rheoliadau yn cynnwys gofynion adrodd na monitro, mae risg y caiff arferion da eu colli ac na chânt eu rhannu rhwng cyrff. Mae hefyd yn debygol na chaiff gwersi eu dysgu o unrhyw ganlyniadau negyddol."*

Cododd pedwar ymatebydd heriau posibl o ran yr arbenigedd sydd ei angen gan y sector iechyd ac a fyddai adnoddau ar ei gyfer, gyda nifer bach yn tynnu sylw at ddiffyg mynediad at ddata ac arbenigedd dadansoddi data ac yn holi a fyddai gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ran i'w chwarae wrth oruchwylio ansawdd AEIau.


Soniwyd hefyd fod angen dull cymesur, gyda thri ymatebydd yn nodi y byddai'n heriol bodloni'r gofynion ar gyfer cynnal AEI o fewn terfynau amser byr, megis sefyllfa frys fel pandemig COVID-19. Nododd dau ymatebydd arall ei bod hi eisoes yn heriol iawn cynnal asesiadau effaith mewn da bryd o fewn y terfynau amser.

Cafwyd sylwadau am y gofynion ymgysylltu ac ymgynghori, gyda phum ymatebydd yn gofyn am fwy o fanylion ynghylch beth y dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei gylch a sut, a phedwar yn nodi y byddai unigolion o bosibl yn blino ar ymgysylltu â chymaint o ofynion ymgynghori a gofynion statudol. Roedd un ymatebydd o'r farn fod y rhwymedigaeth i ymgynghori yn agored iawn ac y byddai'n gallu bod yn destun her gyfreithiol. Cododd nifer bach o'r ymatebwyr yr anghenion hygyrchedd o ran ymgynghori, yn benodol bod angen i anghenion ymgysylltu ddiwallu anghenion gwybodaeth a hygyrchedd pobl ddall a phobl rhannol ddall, ac y dylid ystyried ffactorau diwylliannol. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn pryderu hefyd na fyddai sefydliadau o bosibl yn gwybod pwy yw eu rhanddeiliaid, na fyddant o bosibl yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r rhai mwyaf ymylol, neu na fyddent yn meddu ar arbenigedd cydgynhyrchu a rhwydweithiau sefydledig.

Gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch y disgwyliadau o ran amseru AEI, gyda phedwar ymatebydd yn nodi y dylid ei gynnal yn ystod cam cynnar yn y broses, ac nad dim ond ar ddechrau'r broses y dylid ymgynghori. Gofynnodd pedwar ymatebydd arall am eglurhad o ran p'un a oedd angen AEI pan gaiff cam neu benderfyniad strategol ei adolygu.


## Cwestiwn 9

**I ba raddau rydych chi'n cytuno mai cyhoeddi canllawiau yw'r ffordd orau i Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu cyrff cyhoeddus i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd? Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn.**




Roedd 28 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn (44%), nid oedd 16 yn cytuno nac yn anghytuno (25%), roedd 10 yn anghytuno (16%) ac nid atebodd 9 (14%) (cyfanswm o 99% oherwydd talgrynnu).

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:




### Crynodeb o'r ymatebion testun

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn helpu cyrff cyhoeddus i gynnal AEIau, gyda sawl

un yn nodi y byddai cyhoeddi canllawiau yn helpu i sicrhau cysondeb a chywirdeb ac y dylent fod yn seiliedig ar ganllawiau sefydledig Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.

Gofynnodd sawl ymatebydd (7) i'r canllawiau fod yn statudol, gyda nifer bach yn pryderu y byddai'r canllawiau yn cael eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol gan arwain at anghysondeb, ac nad yw cyhoeddi canllawiau yn gwarantu y rhoddir blaenoriaeth i anghydraddoldebau iechyd wrth wneud penderfyniadau.

Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr ffyrdd y gellid rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus ar wahân i gyhoeddi canllawiau. Ceir amlinelliad o'r awgrymiadau hyn yng Nghwestiwn 14.

## Cwestiwn 10

**Os mai "cytuno" oedd eich ateb i gwestiwn 9, pa wybodaeth fyddai fwyaf buddiol i'w chynnwys fel rhan o'r canllawiau ategol?**

Gwnaeth ymatebwyr lawer o awgrymiadau o ran pa wybodaeth i'w chynnwys yn y canllawiau ategol, gyda thempledi enghreifftiol ac astudiaethau achos o arferion da yn cael eu crybwyll amlaf (26). Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y gofynion data hefyd, gyda 15 o ymatebwyr yn gofyn i ddolenni i'r data angenrheidiol gael eu cynnwys yn y canllawiau ategol.

Awgrymodd ymatebwyr y dylid darparu gwybodaeth ychwanegol am gysyniadau penodol neu grwpiau penodol o'r boblogaeth, gyda chwe ymatebydd yn gofyn am wybodaeth am benderfynyddion ehangach iechyd ac annhegwch iechyd; pum ymatebydd yn gofyn am ganllawiau a hyfforddiant sy'n cynnwys iechyd meddwl a phenderfynyddion iechyd meddwl, a phedwar ymatebydd yn awgrymu y dylai'r canllawiau gynnwys set sylfaenol o benderfynyddion a grwpiau o'r boblogaeth i'w hystyried yn ystod cam cwmpasu AEI, a gofynion sylfaenol o ran sut i gynnal AEI.

Tynnodd naw ymatebydd sylw at yr angen i gynnwys gwybodaeth yn y canllawiau am y gofyniad i ymgynghori, gan alw am fwy o gymorth i ymgysylltu a gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i grwpiau penodol o'r boblogaeth, mwy o wybodaeth a hyfforddiant ar ddulliau croestoriadol, ac ar faterion sy'n wynebu cymunedau penodol.

Gwnaed nifer o awgrymiadau y dylid cynnwys mwy o fanylion ar y broses sydd ei hangen i gynnal AEI, gyda chwe ymatebydd yn awgrymu siart lif yn nodi'r broses neu amlinelliad cam wrth gam a dau ymatebydd yn gofyn am i'r canllawiau egluro beth sy'n rhan o'r cwmpas a beth sydd y tu hwnt i'r cwmpas. Gofynnodd pum ymatebydd i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am elfennau mesuradwy, gofynion adrodd a gofynion monitro, gyda naw ymatebydd yn nodi bod angen datblygu meini prawf i ddangos nodweddion AEI o ansawdd ac i helpu i sicrhau ansawdd AEIau wedi'u cwblhau. Awgrymodd rhai ymatebwyr (5) hefyd y dylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am sut i ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd drwy'r broses AEIau.


Gofynnodd pum ymatebydd i'r canllawiau egluro sut i integreiddio'r broses ag asesiadau effaith eraill a'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Soniodd sawl ymatebydd am iaith a therminoleg, gyda phum ymatebydd yn galw am ddiffiniadau estynedig o dermau allweddol, dau ymatebydd yn nodi y dylai'r canllawiau gyfeirio at iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn hytrach na dim ond iechyd, a dau ymatebydd arall yn gofyn i'r broses asesu gael ei symleiddio ac i'r iaith gael ei hystyried. Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau cliriach o benderfyniadau o natur strategol. At hynny, awgrymodd pum ymatebydd y dylid datblygu canllawiau wedi'u cydgynhyrchu ar gyfer gwasanaethau penodol er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn berthnasol i sectorau penodol.

Tynnodd un ymatebydd sylw at rôl timau iechyd y cyhoedd ac awgrymodd y dylid eu cynnwys wrth lunio'r canllawiau.


## Cwestiwn 11

**Ydych chi'n cytuno bod yr opsiwn i gyhoeddi AEI yn y ffordd fwyaf priodol i'r corff cyhoeddus yn rhoi digon o hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus gynnal yr asesiad yn y ffordd fwyaf priodol? Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn.**




Roedd 28 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn (44%), nid oedd 18 yn cytuno nac yn anghytuno (29%), roedd 7 yn anghytuno (11%) ac nid atebodd 10 (16%).

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr ymatebion wedi'u trefnu yn ôl y math o sefydliad:




### Crynodeb o'r ymatebion testun

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn:

*HIAEMAIL008: "Ni ddylai'r canllawiau fod ar ffurf ffurflen blychau ticio, dylid rhoi'r rhyddid i gyrff cyhoeddus ddatblygu asesiadau effaith mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw (yn unol â'r canllawiau drafft presennol)."*

Nododd rhai y byddai'r hyblygrwydd yn golygu y gellir cyhoeddi AEIau yn y ffordd sydd fwyaf priodol ar gyfer y boblogaeth yr effeithir arni:

R05: *"Mae'r sefydliadau yn gyfarwydd â'u rhanbarthau a'r sefydliadau, gan ddilyn cyngor gan randdeiliaid allweddol, fydd yn gwybod sut i sicrhau'r cwmpas gorau posibl wrth gyhoeddi AEI, felly croesewir hyblygrwydd yn hyn o beth."*

Nododd ymatebwyr nifer o heriau o ran y gofynion cyhoeddi, gyda chwe ymatebydd yn nodi y dylai gofynion yr hyn y mae angen ei gyhoeddi a'i gyfieithu fod yn gliriach ac y dylid cynnwys y gofynion hynny yng nghanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd pum ymatebydd o'r farn nad cyhoeddi ar wefan fyddai'r ffordd orau o hysbysu'r cyhoedd neu grwpiau cymunedol penodol, gyda thri ymatebydd yn nodi efallai na fyddai gan sefydliadau neu unigolion wefan neu fynediad i'r rhyngrwyd.

Cafwyd awgrymiadau ynghylch sut y dylid cyflwyno AEI i'w gyhoeddi, gyda phum ymatebydd o blaid dull integredig ar y cyd ag asesiadau effaith eraill. I'r gwrthwyneb, nododd tri ymatebydd y dylid cyhoeddi AEI ar wahân er mwyn sicrhau'r lefel manylder angenrheidiol.

## Cwestiwn 12

**Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r gofyniad i gyhoeddi allbwn yr AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?**

Nid oedd gan lawer o'r ymatebwyr (13) unrhyw broblemau â'r gofyniad i gyhoeddi'r AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond cododd ymatebwyr eraill amrywiaeth o broblemau posibl.

Nododd chwe ymatebydd y byddai'r gofynion cyhoeddi o bosibl yn heriol gan ddibynnu ar faint a chapasiti cyrff cyhoeddus ac y gallent effeithio ar brosesau llywodraethu mewnol.

Codwyd materion hefyd mewn perthynas â'r amserlen hyblyg; cododd tri ymatebydd bryderon y byddai AEI o bosibl yn cael ei gyhoeddi ar ôl rhoi newid ar waith ac y dylai fod yn ofynnol ei gyhoeddi cyn hynny, gyda chwe ymatebydd o'r farn y gellid dehongli'r gofyniad mewn ffyrdd gwahanol, ac y dylid pennu uchafswm cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r broses:

> *HIAEMAIL018: "Dylid cyhoeddi'r AEI, yn sicr, cyn rhoi'r penderfyniad dan sylw ar waith a chan roi digon o amser i'r cyhoedd graffu arno. Dylai'r canllawiau nodi'n benodol mai cyfnod o 6 wythnos yw'r arfer gorau (ond dylid cynnig hyblygrwydd yn hyn o beth)."*

Nododd rhai ymatebwyr (4) nad oedd hi'n glir sut y byddai'r ddyletswydd i gyhoeddi yn cael ei monitro, gan nodi nad oedd unrhyw gosbau ar gyfer cyhoeddi'n hwyr. Gofynnodd tri ymatebydd arall a fyddai angen adolygu a diweddaru'r AEI ac os felly, pryd.

Codwyd rhai pryderon ynghylch effaith y gofyniad i gyhoeddi'r AEI, gydag un ymatebydd yn poeni y byddai'r cyhoedd neu'r cyfryngau yn gallu craffu ar gyrff cyhoeddus, ac ymatebydd arall yn poeni na fyddai'r ddyletswydd i gyhoeddi ynddi'i hun yn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd.

Clywsom gan nifer bach o ymatebwyr (2) y dylai'r corff cyhoeddus allu arfer disgresiwn wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi AEI, gan awgrymu, pe byddai angen, y dylai gynnwys adrannau safonol yn seiliedig ar yr hyn a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd. Awgrymodd dau ymatebydd arall y dylai'r Rheoliadau gynnwys amserlen benodedig yn nodi am ba hyd y dylai'r AEI fod ar gael.

Soniodd dau ymatebydd fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng cyhoeddi'r AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sicrhau na châi'r ymgynghoriad ei ruthro.

## Cwestiwn 13

**Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ychwanegol o ran sut, ble a phryd y dylid cyhoeddi AEIau?**

Awgrymwyd llawer o syniadau o ran gwella hygyrchedd a chyrhaeddiad mewn perthynas â chymunedau perthnasol. Nododd 11 o ymatebwyr fod angen annog gwahanol gyfryngau a fformatau hygyrch, gyda saith ymatebydd yn argymell ardal benodol ar wefannau cyrff cyhoeddus yn dangos y penderfyniadau a wnaed a'r AEI. Awgrymodd nifer llai o ymatebwyr fannau eraill y gellid cyhoeddi AEI. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys papur newydd neu gylchgronau lleol, y cyfryngau cymdeithasol, taflenni mewn meddygfeydd a gwefannau lleol, gydag un ymatebydd yn awgrymu archfarchnadoedd a hysbysiad cyhoeddus.

Awgrymodd tri ymatebydd y gallai asiantaeth ganolog gyhoeddi, asesu a graddio ansawdd AEIau, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylid cadw archif o AEIau er mwyn gallu craffu arnynt yn y dyfodol.

Gwnaed awgrymiadau hefyd o ran sut y dylid cyhoeddi AEI, gyda thri ymatebydd yn argymell y dylid cyhoeddi crynodeb ac y gellid gwneud hynny fel rhan o'r broses bresennol ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig. Nodwyd y dylai'r crynodeb fod yn glir ac yn hygyrch, gan gynnwys i'r rhai hynny a oedd yn rhan o'i ddatblygu.

## Cwestiwn 14

**Yn ogystal â'r canllawiau, pa ddulliau eraill a chymorth parhaus a allai helpu cyrff cyhoeddus i wireddu manteision AEIau?**

Gwnaed llawer o awgrymiadau o ran gwireddu manteision AEIau yn ogystal â chyhoeddi canllawiau, gydag ymatebwyr yn nodi'r angen am brosesau meithrin gallu ychwanegol er mwyn lliniaru'r risg y bydd AEIau yn troi'n ymarfer blychau ticio.

Yr awgrym a grybwyllwyd amlaf oedd hyfforddiant, a nodwyd gan 26 o ymatebwyr. Roedd yr enghreifftiau o sut i ddarparu hyfforddiant yn cynnwys gweminar blynyddol, llyfrgell o enghreifftiau, hyfforddiant wedi'i dargedu'n benodol at arweinwyr yn y sector cyhoeddus a hyfforddi hyrwyddwyr o fewn cyrff cyhoeddus. Nododd dau ymatebydd bwysigrwydd sicrhau bod y canllawiau a'r holl ddeunyddiau eraill ar gael mewn fformatau hygyrch.

Gwnaeth 15 ymatebydd sylwadau cyffredinol yn nodi y byddai angen cymorth ychwanegol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Cymru gydag un ymatebydd yn nodi y dylai hynny ddigwydd cyn i'r broses ddechrau. Soniodd 5 ymatebydd am ddarparu cyllid i gyrff cyhoeddus i'w helpu i ymateb i'r Rheoliadau, gydag un ymatebydd yn gofyn am system adborth er mwyn ystyried effaith y Rheoliadau ar adnoddau cyrff cyhoeddus.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cynnwys hyfforddiant i gyrff cyhoeddus yn cynnwys astudiaethau achos i ddangos manteision diriaethol AEIau (8 ymatebydd), ac adnodd sgrinio a/neu enghreifftiau, er mwyn sicrhau y caiff y math cywir o AEI ei ddewis (5 ymatebydd).  Cyfeiriodd un ymatebydd at gymorth yn gynnar yn ystod y broses o ran pwy sydd yn y sefyllfa orau o fewn cyrff cyhoeddus i arwain AEIau, ac argymhellodd tri ymatebydd y dylid rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn effeithiol a'i fod yn cyrraedd y grwpiau mwyaf ymylol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid newid y term ‘ymgynghori’ i ‘ymgysylltu’ er mwyn sicrhau gwell cysondeb â'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Soniodd naw ymatebydd am ofynion data, gan alw am well mynediad at y data angenrheidiol, gan gynnwys data Iechyd Cyhoeddus Cymru, data lefel leol, a chyfeiriodd 11 o ymatebwyr at y syniad y gellid datblygu porth data. Gofynnodd naw ymatebydd a ellid datblygu fframwaith monitro a gwerthuso er mwyn helpu i roi'r Rheoliadau AEIau ar waith, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylai unrhyw werthusiad o AEI gynnwys y pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y dylai'r AEI fod yn ddogfen fyw a fyddai'n cael ei diweddaru pan fyddai amgylchiadau'n newid.

Soniodd ymatebwyr hefyd am sawl maes lle y byddai tystiolaeth bellach yn ddefnyddiol o ran cefnogi'r broses AEIau. Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylai'r AEI gynnwys datganiad am y data a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd, gyda sawl ymatebydd arall (9) yn gofyn am system i ddangos sut yr ymdriniwyd ag argymhellion AEIau. Awgrymodd wyth ymatebydd y dylai corff canolog gyhoeddi a graddio AEIau a chwarae rhan wrth archwilio eu hansawdd, gyda phedwar

ymatebydd yn gofyn am ddiweddariadau i ddangos y darlun cenedlaethol ac effaith AEIau gorfodol.

Soniodd llawer o ymatebwyr (14) am fanteision cydweithio a chyfnewid gwybodaeth rhwng sefydliadau, gyda dau ymatebydd yn awgrymu system adolygu cymheiriaid er mwyn defnyddio arbenigedd sefydliadau sydd eisoes yn cynnal AEI.

Roedd yr awgrymiadau eraill ar gyfer gwireddu manteision AEIau yn cynnwys enwi swyddog penodedig i roi cyngor a chymorth (7 ymatebydd), ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar AEIau neu i ofyn am gyngor arbenigol iechyd y cyhoedd fel rhan o'r broses o gynnal AEI (7 ymatebydd), a'r angen am gydberthynas agosach rhwng timau iechyd y cyhoedd lleol a chyngorau lleol yn cael ei nodi gan un ymatebydd.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys hyfforddiant ar AEIau fel rhan o addysg iechyd y cyhoedd fel ffordd o gynyddu capasiti ym mhob rhan o'r sector, a chododd ymatebydd arall bwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o AEIau gorfodol, a digolledu ymgyngoreion am eu hamser a'u cyfraniad.

## Cwestiwn 15

**Bydd y Rheoliadau drafft yn effeithio ar y cyrff cyhoeddus a restrir mewn ffyrdd gwahanol. Er mwyn inni feithrin gwell dealltwriaeth o'r effeithiau hyn, allwch chi ddweud wrthym pa gostau a manteision, os o gwbl, y rhagwelwch pan ddaw'r Rheoliadau drafft i rym?**

Amlinellodd ymatebwyr nifer o gostau a fyddai'n gysylltiedig â'r Rheoliadau drafft, gyda'r costau a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud ag adnoddau staff (26), gan gynnwys costau hyfforddi a datblygu (16).

> *R007: "Er ein bod yn deall yr angen i asesu'r effaith ar iechyd, rydym yn pryderu y bydd angen i staff neilltuo cryn dipyn o amser i gyflawni'r rhwymedigaeth hon, a hynny ar adeg pan fo pwysau sylweddol ar staff. Mae amgylchiadau ariannol presennol sefydliadau cyhoeddus yn golygu ein bod yn gorfod gwneud toriadau a phenderfyniadau anodd nad ydym am eu gwneud. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i drawsnewid a moderneiddio, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau mewn modd amserol, a all arwain at effeithiau negyddol nad oes modd eu hosgoi."*

Soniwyd yn aml hefyd am y costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r asesiad a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (15).

> *R021: "Mae'n bwysig cofio bod y gofynion i gyhoeddi'r AEI ar wefan hefyd yn esgor ar ofynion statudol eraill penodol mewn perthynas â'r Gymraeg a hygyrchedd (e.e. rheoliadau hygyrchedd y sector cyhoeddus) a all gynyddu'r baich biwrocrataidd a'r gost i bwrs y wlad ymhellach. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth ystyried cymesuredd."*

Tynnodd saith ymatebydd sylw at y costau sy'n gysylltiedig â chynnal ymgynghoriad, gyda thri ymatebydd yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â chapasiti ac adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Soniodd nifer llai o'r ymatebwyr am gostau anuniongyrchol neu bosibl, fel oedi wrth wneud penderfyniadau (5 ymatebydd) a'r angen i adolygu prosesau asesu a llywodraethu sy'n bodoli eisoes (2 ymatebydd). Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at gostau'r cyllid cyhoeddus a fyddai'n cael ei ddefnyddio i dalu ymgynghorwyr AEI, a chostau cyfun yr angen i gydymffurfio â'r holl asesiadau effaith.

Roedd y costau anuniongyrchol eraill a grybwyllwyd yn cynnwys y risg y byddai adnoddau yn cael eu dargyfeirio oddi wrth waith pwysicach er mwyn cynnal AEIau (3 ymatebydd), costau ymateb i heriau cyfreithiol (4 ymatebydd), a soniodd un ymatebydd am gost rhoi argymhellion yr AEI ar waith.

Cododd dau ymatebydd effaith bosibl o ran cost ar y cyhoedd, gan nodi fod angen sicrhau na chaiff costau eu trosglwyddo ymlaen drwy godiadau treth.

Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd o'r farn ei bod hi'n anodd meintioli'r costau, ac y byddai angen rhagor o wybodaeth arnynt am ddiffiniad a graddau AEIau.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr (14) at nifer o fanteision posibl i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys llai o anghydraddoldebau iechyd, nifer o ganlyniadau cadarnhaol gan

gynnwys iechyd y boblogaeth, llesiant a thegwch, yn ogystal â chyd-fanteision o ganlyniad i weithredu ar draws sectorau:

*HIAEMAIL006: "Gellid ystyried bod cynnal yr AEI ochr yn ochr ag asesiadau eraill, fel rhan o asesiad integredig ehangach, yn ychwanegiad gwerth chweil i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n anelu at hyrwyddo Cymru iachach fel un o'r saith nod llesiant a nodwyd ganddi. Felly gallai ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal AEI sicrhau bod yr effaith ar iechyd a llesiant yn cael ei hystyried yn ehangach drwyddi draw, gan felly gyflawni'r bwriad o gynnwys iechyd ym mhob polisi mewn ffordd fwy effeithiol."*

*HIAEMAIL024: "Bydd AEIau yn cyfrannu at well iechyd a llesiant yng Nghymru ac at leihau anghydraddoldebau dros amser. Bydd AEIau yn gwella cynlluniau a phenderfyniadau drwy gynyddu cyfleoedd a manteision a lliniaru yn erbyn yr effeithiau negyddol anfwriadol hynny, mewn perthynas ag anghydraddoldebau, iechyd a llesiant."*

*HIAEMAIL033: "Mae'r manteision yn gysylltiedig â chostau cymdeithasol is posibl annhegwch iechyd a'r canlyniadau dilynol, y gwyddys eu bod yn gostus tu hwnt."*

Soniodd ymatebwyr hefyd am nifer o fanteision posibl mewn perthynas â gwella'r broses gwneud penderfyniadau (6 ymatebydd), darparu cofnod o sut mae cyrff cyhoeddus wedi ystyried anghydraddoldebau iechyd (4 ymatebydd) a sicrhau cysondeb â dyletswyddau a pholisïau eraill y sector cyhoeddus. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn bod AEIau yn gydnaws â dyletswyddau cyfreithiol yn y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a'u bod yn cefnogi amcan 'Cymru Iachach' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda dau ymatebydd yn nodi sut y byddai'r Rheoliadau hefyd yn cefnogi amcanion *Pwysau Iach, Cymru Iach*, ac yn gwella enw da Cymru fel arweinwyr byd-eang ym maes polisi iechyd ac AEIau.

Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y gallai AEIau ategu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, a grymuso cymunedau buddiant drwy brosesau cyfranogol. Nododd un ymatebydd y gallai'r Rheoliadau o bosibl symleiddio gofynion ymgysylltu ac ymgynghori.

Soniodd pedwar ymatebydd am gapasiti a gallu cynyddol wrth ddefnyddio adnoddau a dulliau iechyd y cyhoedd, a chyfeiriodd tri ymatebydd at ostyngiadau tymor hir mewn gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol:

RO11: *"Bydd defnyddio AEIau fel mater o drefn yn cynnig manteision tymor hir i'r sector iechyd ac yn lleihau gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol, gan y bydd yn sicrhau nad yw cynlluniau a pholisïau yn arwain at effeithiau andwyol anfwriadol ar iechyd a chynyddu eu heffeithiau cadarnhaol ar iechyd i'r eithaf."*

## Cwestiwn 16

**Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon gael effaith ar y canlynol?**

**• Y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig**
**• Grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol**
**• Plant a phobl ifanc**
**• Cydraddoldeb mewn perthynas ag; − Oedran − Rhyw − Hil − Crefydd − Cyfeiriadedd rhywiol −Beichiogrwydd a mamolaeth − Anabledd − Ailbennu rhywedd − Priodas/partneriaeth sifil**

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau penodedig (24), ond roedd rhai (9) o'r farn y byddai'r cynigion o bosibl yn cael effaith gadarnhaol ond nad oeddent o bosibl yn mynd yn ddigon pell. Roedd wyth ymatebydd o'r farn eu bod eisoes yn ystyried y grwpiau hyn wrth wneud penderfyniadau, ac felly mai dim ond effaith gyfyngedig y byddai'r cynigion hyn yn ei chael.

Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (4) o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth benodol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a nododd yr un nifer o'r ymatebwyr y gallai'r cynigion bwysleisio anghydraddoldebau os cânt eu rhoi ar waith mewn ffordd wael, os caiff adnoddau eu dargyfeirio o fannau eraill, neu os na chaiff anghenion grwpiau penodol eu diwallu. Dywedodd un ymatebydd y byddai'n heriol nodi'r effaith ar blant os nad yw gweithdrefnau'r sefydliad yn dylanwadu'n uniongyrchol arnynt.

## Cwestiwn 17

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r ymgynghoriad yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

Roedd llawer o'r ymatebwyr (18) o'r farn bod y Gymraeg eisoes yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau, neu na fyddai unrhyw effaith sylweddol. Roedd rhai ymatebwyr (10) o'r farn y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg.

Gwnaed yr awgrymiadau canlynol mewn perthynas â chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg i'r eithaf; cynnwys canllawiau ar y Gymraeg fel rhan o'r broses AEIau, cynnwys siaradwyr Cymraeg wrth ddatblygu'r Rheoliadau ac ystyried yr effeithiau; ystyried y Gymraeg yn llawer cynharach yn ystod y broses AEIau; datgan yr angen i gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (crybwyllwyd pob awgrym gan un ymatebydd).

Soniodd dau ymatebydd am yr effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg os caiff adnoddau eu dargyfeirio o fannau eraill, neu os na chaiff dolenni i dystiolaeth i gefnogi AEIau eu cyhoeddi yn Gymraeg, a thynnodd dau ymateb arall sylw at yr angen i ystyried ieithoedd eraill.

## Cwestiwn 18

**Oes unrhyw grwpiau eraill mewn cymdeithas na chyfeiriwyd atynt y byddai'r cynigion yn cael effaith arnynt yn eich barn chi?**

Roedd rhai o'r ymatebwyr (13) o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar grwpiau eraill, ond tynnodd eraill sylw at amrywiaeth o grwpiau o fewn cymdeithas y byddai'r cynigion o bosibl yn cael effaith arnynt yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys pobl sy'n ddigartref a phobl ar incwm isel (6 ymatebydd), a soniodd pedwar ymatebydd am ffoaduriaid a cheiswyr lloches, unigolion sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal.

Roedd eraill o'r farn y gallai effeithio ar grwpiau eraill ond nid oeddent yn siŵr pa grwpiau:

> *HIAEMAIL022: "Byddai'n anodd llunio rhestr yma, hynny yw gwerth llunio AEI da, a gweithredu mewn ffordd gadarn i nodi'r holl randdeiliaid, a fydd yn wahanol ar gyfer pob sefyllfa, ac ymgysylltu'n llawn â nhw."*

Soniodd tri ymatebydd am gyn-filwyr, gofalwyr ifanc, gofalwyr, cymunedau crwydrol, babanod a phlant bach, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylai cyrff cyhoeddus gynnwys plant a phobl ifanc fel rhanddeiliaid gan ddilyn dull tebyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Soniodd un ymatebydd am grwpiau eraill y gellid effeithio arnynt:

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd poblog
- Pobl sy'n ordew
- Pobl ag anabledd dysgu
- Ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ardal leol benodol e.e. llygredd aer
- Pobl sy'n ffoi cam-drin domestig
- Poblogaeth carchardai / pobl sy'n gadael y carchar
- Y grwpiau sydd wedi'u nodi ar restr wirio Grwpiau Poblogaeth WHIASU
- Pobl ddall/rhannol ddall
- Pobl â dibyniaeth

## Cwestiwn 19

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw adborth ychwanegol ar y Rheoliadau drafft nad ydym wedi ymdrin ag ef yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac maent wedi'u cynrychioli gan ddetholiad o ddyfyniadau isod.

### Adrodd a chanlyniadau

*R003: "Yn cefnogi bwriad polisi Llywodraeth Cymru i ymdrin â phenderfynyddion ehangach iechyd ond ceir diffyg ffocws ar asesu canlyniadau – i gyrff cyhoeddus ac i gymdeithas ehangach."*

*HIAEMAIL012: "Nid yw'n glir o'r ddogfen pwy fydd yn gyfrifol am drefniadau adrodd, monitro a gwerthuso. A ystyriwyd rôl bosibl Tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth adrodd ar gydymffurfiaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddysgu a datblygu yn y dyfodol? A oes rôl i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol? Ai swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon? Byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi eglurder ar y trefniadau hyn."*

### Canllawiau

*HIAEMAIL029: "Hoffem bwysleisio'r angen am ganllawiau clir a gwrthrychol er mwyn lleihau achosion o ddehongli agored a helpu sefydliadau i benderfynu a ddylid cynnal AEI ai peidio."*

### Cymesuredd

*HIAEMAIL013: "Mae [sefydliad] yn cefnogi'r dull pragmataidd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr asesiadau arfaethedig o'r effaith ar iechyd a'r datganiad bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau 'mai dim ond o dan yr amgylchiadau hynny lle y byddent fwyaf buddiol y byddai AEIau yn orfodol' ac na fyddent yn cael eu llywio gan ofyniad syml i gynyddu nifer yr AEIau a gynhelir."*

*HIAEMAIL007: "Mae'r rheoliadau drafft yn gydnaws â meddylfryd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roeddem wedi mynegi awydd na ddylai'r rheoliadau fod yn rhy ragnodol, ac rydym yn teimlo bod y rheoliadau drafft yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni. Nid ydym am i'r AEI fod yn rhy ragnodol ac rydym am sicrhau bod yr AEI yn ystyrlon ac yn cynnwys ymdrech dda i ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi'i ategu gan waith ymchwil a thystiolaeth."*

### Cysylltu â'r system iechyd y cyhoedd ehangach

*RO22: "Nid yw'r rheoliadau drafft yn cydnabod y system iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru ychwaith. Mae gan bob bwrdd iechyd Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd a thîm iechyd y cyhoedd lleol, a hynny ar wahân i gapasiti cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn ychwanegol ato. Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am iechyd a llesiant y boblogaeth ac yn bartner allweddol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac fel y cyfryw, mae ganddo ran allweddol i'w chwarae a chyfraniad pwysig i'w wneud i AEIau."*

**Manteision y Rheoliadau**

*HIAEMAIL011: “Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad a chyflwyno'r Rheoliadau AEI. Rydym yn cydnabod bod hwn yn ddull arloesol sy’n arwain y byd ac yn gobeithio cefnogi eu gweithrediad effeithiol a llwyddiannus.”*

*HIAEMAIL014: “Ni all y GIG ar ei ben ei hun leihau anghydraddoldebau. Mae angen dull trawslywodraethol ac amlasiantaethol effeithiol arnom wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac ymdrin â ffactorau fel tai, trafnidiaeth, ac ansawdd bwyd gwael. Mae'n hanfodol bod AEIau yn ysgogi trefniadau cydweithio a bod cyrff cyhoeddus yn atebol am y camau a gymerir ganddynt. Gallai AEIau ysgogi newid sylweddol mewn polisi ac ymarfer ar draws cyrff cyhoeddus, a meithrin trefniadau cydweithio, integreiddio, a ffordd o feddwl tymor hir.”*

*HIAEMAIL016: “Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio manteision cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd yn glir gan ei fod yn darparu fframwaith systematig, hyblyg ac ymarferol i ystyried effeithiau ehangach polisïau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallent effeithio ar iechyd pobl.”*

## Atodiad 1 – Crynodeb o'r ymatebwyr

### Cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft

1. Cyngor Sir Powys
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
3. Cyngor Sir Ddinbych
4. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
6. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
7. Cyngor Dinas Casnewydd
8. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
9. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
10. Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol
11. Cyngor Bro Morgannwg
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
13. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
14. Cyngor Sir Ceredigion
15. Cymwysterau Cymru
16. Cyfoeth Naturiol Cymru
17. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
18. Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
19. Trafnidiaeth Cymru
20. Gofal Cymdeithasol Cymru
21. Chwaraeon Cymru
22. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
23. Iechyd Cyhoeddus Cymru
24. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
25. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
26. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
27. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

### Y Trydydd Sector

28. Conffederasiwn GIG Cymru
29. Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
30. Anabledd Dysgu Cymru
31. Plant yng Nghymru
32. Age Cymru
33. Platfform
34. The Health Foundation
35. Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH)
36. RNIB Cymru
37. Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
38. Sefydliad Iechyd Meddwl
39. Whizz Kidz
40. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
41. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) Cymru

**Undebau Llafur, Grwpiau Diddordeb Arbennig ac Eraill**

42. Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru
43. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
44. NASUWT Cymru (Undeb yr Athrawon)
45. Fferylliaeth Gymunedol Cymru
46. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
47. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
48. Psychologists for Social Change
49. Deep End Cymru